LANEq227

# Ymarfer ceffylau rasio o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys ymarfer ceffylau rasio o dan oruchwyliaeth, mewn ardaloedd carlamu ac mewn ardaloedd hyfforddi eraill. Bydd angen i chi ymarfer ceffylau rasio fel mater o drefn ar lefelau ffitrwydd gwahanol.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. cwblhau'r paratoadau perthnasol cyn dechrau marchogaeth
3. mynd at y ceffyl rasio yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl rasio, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
4. mynd ar gefn ac oddi ar gefn y ceffyl rasio, yn unol â'r gweithdrefnau
5. addasu osgo a chyflymder y ceffyl yn unol â'r amodau pennaf a'r ardal ymarfer
6. cynnal y safle cywir a chydbwysedd drwy'r amser
7. cynnal arferion ymarfer ar gyfer y ceffyl rasio yn unol â'r amodau, yr ardal ymarfer a'r gyfundrefn, o dan oruchwyliaeth
8. nodi a hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw anawsterau
9. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. pwysigrwydd dilyn arferion ymarfer
4. paratoi ceffylau rasio ar gyfer ymarfer arferol
5. y peryglon yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws wrth ymarfer ceffylau rasio a'r person priodol i'w hysbysu ynghylch y rhain
6. y mathau a'r defnydd o gymhorthion ar gyfer symudiadau syml
7. effeithiau'r tywydd ar arwynebedd a sut y gallai hyn effeithio ar farchogaeth
8. sut i addasu osgo a chyflymder yn unol â'r amodau a'r ardal ymarfer
9. y camau i'w cymryd os bydd damwain neu ddigwyddiad
10. y peryglon i geffylau rasio, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
11. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Paratoi'r canlynol cyn ymarfer ceffyl rasio:

- harneisiau
- addasu'r cenglau
- cyfarwyddiadau ymarfer

Ystyried yr amodau canlynol:

- y tywydd
- marchogaeth mewn grŵp

Ymarfer ceffylau rasio yn y mannau canlynol:

- ardal gaeedig
- ardal hyfforddi
- ardaloedd hyfforddiant carlamu

Cyflawni'r arferion ymarfer canlynol gyda cheffyl rasio:

- cerdded
- trotian
- hanner carlamu

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

Sut i adnabod a hysbysu ynghylch yr anawsterau canlynol:

- cyflwr y ceffyl
- anallu i ddilyn trefn ymarfer

Ymarfer ceffylau rasio o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq227 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; ras; carlamu; hyfforddi; iechyd a lles anifeiliaid |